# Gŵyl TRIBAN Festival



Urdd 100 1922 - 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Gorau o Ddiwylliant Cyfoes Cymru

I ddathlu canmlwyddiant yr Urdd, cynhaliwyd gŵyl newydd sbon ar Faes Eisteddfod yr Urdd - Gŵyl Triban – i roi llwyfan i'r gorau o gerddoriaeth a diwylliant cyfoes Cymru.

Roedd yr ŵyl yn edrych ymlaen i'r dyfodol tra'n edrych yn ôl ar y ganrif ddiwethaf, ac yn rhoi cyfle i aelodau a chyn-aelodau ddod ynghyd i ddathlu. Gyda arlwy byw ar hyd tair llwyfan, roedd y lein-yp yn apelio at gynulleidfa eang o bob oedran a chefndir.

Gydag artistiaid cerddorol fel Yws Gwynedd, N'famady Koyuaté, Adwaith, Eadyth ac Izzy, comedi newydd gan Mel Owen a Cabarela, podlediadau byw, sesiynau llenyddol a theatr stryd byw gan artistiaid proffesiynol a phobl ifanc Sir Ddinbych, roedd Gŵyl Triban yn cynnig rhywbeth i bawb.





Dyddiad: 2il - 4ydd o Fehefin 2022

Lleoliad: Maes Eisteddfod yr Urdd, Dinbych

Mynediad am ddim





# Plethu'r Cyfoes a'r Traddodiad

Yn ogystal â'r arlwy cyfoes, roedd cyfle i ddod â hen draddodiadau'r Urdd i'r presennol. Cafwyd Twmpath mawr cyfoes fel yn y gwersylloedd ers talwm, cynhaliwyd Cwis Mawr yr Urdd i brofi gwybodaeth y gynulleidfa am y mudiad, cafwyd Jambori anferth ar y Maes, ac roedd cyfle i glampio mewn bell-tents yn union fel yng Ngwersyll Haf Llangrannog ers talwm. Roedd Gŵyl Triban yn plethu'r cyfoes a'r traddodiadol i gael dathliad unigryw i aelodau ac i gynulleidfa newydd yr Urdd.






# Llwyfan i dalent

Yn ogystal a llwyfan pafiliwn Eisteddfod yr Urdd, eleni cafwyd 2 lwyfan newydd i ddathlu'r gorau o dalent y wlad, sef Llwyfan y Sgubor, a Llwyfan yr Arddorfa. Roedd bandiau a digwyddiadau byw ar y ddwy lwyfan drwy gydol yr ŵyl.

# Gŵyl Werdd

Roedd ardal yr Arddorfa yn ardal eco-gyfeillgar gyda gerddi byw i ddenu bywyd gwyllt ac i roi profiad i blant a phobl ifanc o'u ecoleg lleol. Yn ogystal, roedd offerynnau wedi eu plannu yn yr ardd er mwyn i'n cynulleidfa allu arbrofi gyda creu cerddoriaeth. Yn yr ardal hon, roedd toiledau compost a deunyddiau adeiladu naturiol.

Dyma gam mawr ymlaen i'r Urdd wrth i ni ddatblygu gŵyl werdd sy'n cyd-fynd â'n amcanion amgylcheddol, i leihau ôl troed carbon yr ŵyl ac i ddangos y ffordd i wyliau eraill yng Nghymru a thu hwnt.









"Dan ni wir yn teimlo y dathliad yma, gyda 100 mlynedd o'r Urdd. Mae 'na ddathliad go iawn, parti go iawn - ac yn y lle gorau i gael parti. Mae e'n mynd i fod yn benwythnos i'w gofio."

**Non Parry**
**Cerddor, Eden**

"Diolch enfawr Eisteddfod yr Urdd #dinbych #EisteddfodyrUrdd2022 - bendigedig. Pafiliynau, ardal enillwyr a Gŵyl Triban yn ychwanegiad llwyddiannus iawn, pawb wedi mwynhau'n arw"

**Angharad Butler**
**Ymwelydd i Ŵyl Triban**





"Mae 'na gynnwrf yn bodoli yma sydd heb fodoli o'r blaen. Mae o'n teimlo'n newydd eto mewn ffordd.

Mae'r ffaith bod y gigs 'ma gan yr Urdd wedi datblygu i fod yn rhywbeth mor fawr yn rili cŵl achos mae o'n rywbeth i artistiaid Cymraeg anelu ato."

**Ywain Gwynedd**
**Cerddor a Pherchennog Label Cosh**

# Mynediad am Ddim

Eleni, manteisiodd ein ymwelwyr ar gynnig o fynediad am ddim i Faes Eisteddfod yr Urdd ac i Ŵyl Triban.

Yn dilyn buddsoddiad ariannol gwerth £527,000 gan Lywodraeth Cymru i nodi canmlwyddiant yr Urdd, llwyddodd Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl Triban i ddenu cynulleidfaoedd newydd ac ehangu gorwelion plant Cymru, gan ddangos ein bod yn sefydliad cynhwysol ar gyfer plant a phobl ifanc o bob cefndir. Drwy gynnig mynediad am ddim, mae mwy o ymwelwyr nac erioed o'r blaen wedi ymweld â'r Maes, a nifer uchel ohonynt wedi ymweld am y tro cyntaf.





"Llongyfarchiadau ar lwyddiant Eisteddfod 2022 #Urdd2022 - mynediad i'r maes am ddim wedi sicrhau bod croeso i bawb! Free entrance provides great opportunites for everyone to enjoy and experience this great cultural opportunity."
**@tegwen_ellis, Ymwelydd Gŵyl Triban**

"We were delighted to work with the Urdd and local communities to make this Eisteddfod one to remember and the fact it broke attendance records speaks volumes for the amount of effort that went in to stage such a prestigious event. Naturally, the tourism accommodation sector benefitted tremendously from having the Eisteddfod in Denbighshire, with many businesses reporting to be full during the week."
**Cllr Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych**

# Gŵyl Triban Mewn Rhifau









**56,013**

o bobl wedi ymweld â Gŵyl Triban

**26,060**

o bobl wedi ymweld â
gwefan Gŵyl Triban

**15,000**

o bobl wedi lawrlwytho'r
ap i wylio cynnwys digidol

**200**

o blant Sir Ddinbych wedi
perfformio yn agoriad Gŵyl Triban

**150**

o wirfoddolwyr
lleol yn stiwardio

**90**

o stondinwyr gan gynnwys
busnesau lleol a chenedlaethol

**40**

o bobl ifanc wedi gwirfoddoli
yn y Cynllun Croeso

**37**

band wedi chwarae set byw

**19**

stondin bwyd stryd

**10**

sgwrs, set gomedi,
llenyddiaeth, neu bodlediad byw

**4**

sesiwn theatr stryd byw

# Gweithdai Celfyddydol

Fel rhan o arlwy Gŵyl Triban, cafwyd dros 35 o weithdai celfyddydol ar draws 3 diwrnod, i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau ac i arbrofi er mwyn creu. Un o brif amcanion yr Urdd yw annog pobl ifanc i gymryd rhan, ac roedd y gweithdai hyn yn sicrhau profiad celfyddydol newydd i nifer o'n ymwelwyr.

Roedd y gweithdai yn cynnwys cerddoriaeth samba, creu podlediad, gweithdy Merched yn Gwneud Miwsig, drag, technoleg VR, celf a chrefft, chwarae ukeleles, creu barddoniaeth gyda Bardd Plant Cymru, colur, DJio, graffiti, iechyd meddwl, perfformio, a theatr stryd.



"Mae Eisteddfod yr Urdd wedi rhoi gymaint o gyfleoedd i fi i berfformio a magu hyder, a sai'n meddwl bydden i'n gwneud y swydd dwi'n gwneud nawr oni bai am yr Urdd. Mae mor bwysig rhoi cyfle i DJs berfformio a gwneud eu crefft ar lwyfannau'r Urdd, a fi mor ddiolchgar achos heb yr Urdd bydden i heb ddechrau DJio."

**Mirain Iwerydd**
**DJ a Cyflwynydd BBC Radio Cymru**

# Partneriaid Allweddol

Heb gefnogaeth ein partneriaid, fyddai Gŵyl Triban ddim wedi gallu cynnig arlwy amrywiol a chyfoes i'n holl ymwelwyr. Dyma rai o bartneriaid allweddol yr ŵyl.

Llywodraeth Cymru / Welsh Government
BBC radio cymru
S4C
The Queer Emporium
Castell Howell
Merched yn Gwneud Miwsig
Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales
Cyngor sir ddinbych / denbighshire County Council
Trigger Happy Creative
Y Selar
Brenig Wind Ltd
Theatr Clwyd

# Prosiect Plethu

Fel rhan o weithgaredd arbrofol Gŵyl Triban, datblygwyd 5 prosiect uchelgeisiol a chynhwysol i roi profiadau celfyddydol i bobl ifanc o bob cefndir. Fel rhan o Prosiect Plethu, cafwyd perfformiadau newydd o wahanol gelfyddyd gan gynnig cyfleoedd perfformio digidol ac ar Faes yr Eisteddfod i bobl ifanc ar draws Cymru.

Dyma grynodeb o'r prosiectau hyn:

- Creu rap i ddangos balchder mewn gwallt afro
- Cyfuno dawnsio cyfoes â phêl-fasged cadair olwyn
- Plethu canu opera gyda cheerleading
- Creu barddoniaeth gyda tîm pêl-droed merched a chlwb arwyddo Macaton
- Perfformiad dawns greadigol drwy gyfrwng drag

Mae holl berfformiadau digidol Prosiect Plethu ar gael i'w gwylio yma.



"Diolch i @EisteddfodUrdd am ein cynnwys yn y prosiect plethu. Y plant wir wedi mwynhau ysgrifennu barddoniaeth am bwysicrwydd ac arwyddocad eu gwallt i ddathlu eu hunaniaeth @YsgolHamadryad."
**Pinwydden @5PHamadryad**





"Criw Côr Makaton Lleisiau Llawen @LlwybrauLl wedi cael profiad arbennig yn cydweithio gyda @Ceribos a Sian @CPDMerchedCfon ar y prosiect Plethu arbennig yma gan @EisteddfodUrdd Gobeithio fydd fwy o Makaton yn gael ei gynnwys yn yr Eisteddfod yn y dyfodol "
**Llwybrau Llesiant @LlwybrauLl**





# Marchnata a Chyfathrebu

I gyrraedd cynulleidfa newydd, cafwyd ymgyrch farchnata eang. Partnerwyd gyda Chynghorau Sir a chymdeithasau tai i sicrhau fod pawb yn derbyn gwybodaeth am Gŵyl Triban. Yn ogystal, cafwyd ymweliadau i ysgolion a llyfrgelloedd, hysbysebion ar fysiau, posteri ac arwyddion ar fyrddau hysbysebu, hysbysebion ar y radio, ac ymgyrch ddigidol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cafwyd sylw sylweddol i Ŵyl Triban yn y wasg hefyd, yn cynnwys ar BBC Radio Cymru, S4C, Golwg 360, Heno, Daily Post, BBC Cymru Fyw, Prynhawn Da, The National, Golwg, Corgi Cymru, Western Mail a Wales Online.

Mae oriel o luniau BBC Cymru Fyw ar gael yma







# Cyrhaeddiad Digidol

Impressions: 568,339
Engagement: 17,464

Impressions: 721,260
Engagement: 54,380

Impressions: 493,187
Engagement: 4,959

**Cyrhaeddiad #urdd2022:**
6,981,780

**Cyrhaeddiad geiriau allweddol am Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl Triban:**
16,467,320

# Beth Nesaf i Ŵyl Triban?

Yn dilyn llwyddiant Gŵyl Triban, hoffai'r Urdd ddatblygu'r ŵyl  er mwyn parhau i gynnig y gorau o'r celfyddydau yng Nghymru i'n cynulleidfa, a rhoi llwyfan deilwng i'n cyfranwyr.

Er mwyn sicrhau llwyddiant Gŵyl Triban i'r dyfodol, bydd yr Urdd yn:

- Cydweithio gyda sefydliadau celfyddydol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ehangu y cyfleoedd i berfformwyr newydd ac artistiaid o’r maes cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chomedi.
- Cynnig cyfle ymdrochol Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg
- Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli a stiwardio, gan ddarparu hyfforddiant a chymwysterau diogelwch mewn digwyddiad byw.
- Ffrydio'r arlwy yn fyw ar gyfrif YouTube yr Urdd, a chynyddu oriau darlledu ar S4C a BBC Radio Cymru er mwyn cyrraedd cynulleidfa ddigidol newydd.
- Gweithio gydag ysgolion a chlybiau cymunedol i sicrhau mwy o gyfleoedd perfformio i bobl ifanc o bob cefndir, gan feithrin perfformwyr y dyfodol.
- Rhoi cyfle i fusnesau ac arlwywyr lleol a chenedlaethol i gynyddu trosiant drwy gael safle ar y maes a hyrwyddo’r darpariaeth ymhellach.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a darparwyr ynni gwyrdd i ddatblygu yn ŵyl eco-gyfeillgar sy'n defnyddio ynni gwyrdd a deunyddiau naturiol.
- Gwerthuso parhaus o’r ŵyl gan ddilyn adborth ein partneriaid a'n cynulleidfa.
- Parhau i gynnig budd economaidd i'r gymuned sy'n croesawu'r ŵyl drwy hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth lleol mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir.



“Wrth i’r Urdd ddathlu ein pen-blwydd yn gant oed, dyma ein ffordd ni o ddiolch i bob gwirfoddolwr ac aelod sydd wedi cefnogi’r mudiad. Mae Gŵyl Triban yn ddatblygiad cyffrous i ni, ac yn gyfle i ni ddathlu holl elfennau o ddiwylliant Cymraeg gan gynnig gwledd i bawb o bob oed.”
**Sian Eirian, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd**

Methu credu'r safon gawson ni ar lwyfan Arddorfa heno. @eadythofficial a @IzzyMorgana, N'famady Kouyaté, ac Adwaith. Plant yn cael rhedeg yn wyllt o gwmpas y ddrysfa wiail a llenni bambw a dawnsio...
Mae'r Urdd yn sicr wedi llwyddo i gyfuno'r cystadlu gyda'r awyrgylch gwyl eleni”
**Non Gwenhwyfar**
**@collgwynfa**
**Ymwelydd Gŵyl Triban**









